**RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor y Rhybudd o Gynnig canlynol ar gyfer sylw'r Cyngor Llawn:

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gal war Lywodraeth Cymru i newid y Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfo dol cael hawl cynllunio i drosi tŷ anedd yn dŷ haf /uned wyliau, ac yn addasu'r fframwaith bolisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal.